COLEG GWENT
CORFFORAETH ADDYSG BELLACH

*MYNEDIAD AT WYBODAETH YN GYSYLLTIEDIG Â BUSNES Y GORFFORAETH*
*(Diwygiwyd Mehefin 2016)*

## Datganiad Polisi

Mae Corfforaeth Coleg Gwent yn ymroddedig i bolisi o onestrwydd a thryloywder wrth gynnal ei fusnes.

Fel sy'n ofynnol dan yr Offeryn Llywodraethu Statudol, a hefyd yn unol â'i God Ymddygiad ei hun, bydd y gorfforaeth yn

## Meini prawf ar gyfer dosbarthu

- Dylid cyfyngu mynediad i wybodaeth yn ymwneud â busnes y Gorfforaeth neu Bwyllgorau ble fo hynny'n gwbl angenrheidiol yn unig a rhaid gallu cyfiawnhau'r penderfyniad yn llwyr yn erbyn y meini prawf canlynol:

    - Cyfeiriad at, neu wybodaeth bersonol yn ymwneud ag, unigolion a enwir.
    - Materion disgyblaeth.
    - Gwybodaeth yn ymwneud â sefyllfa drafod y Coleg parthed materion masnachol neu gysylltiadau diwydiannol.
    - Gwybodaeth ariannol ac/neu fasnachol sensitif, ble byddai datgeliad yn debygol o fod yn niweidiol i'r Coleg ac/neu ei enw da.
    - Cyngor gan, neu gyfarwyddiadau i, gynghorwyr cyfrinachol y Coleg (e.e. cyfreithwyr).
    - Gwybodaeth a ddarperir gan drydydd parti nad yw wedi awdurdodi ei datgelu.
    - Gwybodaeth y bwriadir ei chyhoeddi, cyn y dyddiad cyhoeddi neu pan fydd ar ffurf drafft.
    - Unrhyw fater arall y mae'r Gorfforaeth neu'r Pwyllgor yn fodlon ddylid cael ei drin yn gyfrinachol.

## Dad-ddosbarthu a Rhyddhau Gwybodaeth Corfforaeth/Pwyllgor

- Cynhelir adolygiad o wybodaeth y Gorfforaeth a Phwyllgora a ddosbarthwyd fel cyfrinachol yn flaenorol yn flynyddol (fel arfer yn nhymor yr Hydref) gan y Swyddog Llywodraethu ac aelod neu aelodau perthnasol y Tîm Rheoli Corfforaethol, gan ystyried unrhyw amserlen a awgrymwyd ar adeg dosbarthu.

- Os bernir nad yw rhyddhau er lles y Coleg neu Gorfforaeth, gellir cofnodi terfyn amser newydd neu gario'r ddogfen ymlaen i'r adolygiad blynyddol nesaf.

- Er mwyn bod mor agored â phosibl, gellir penderfynu dileu dosbarthiad dogfen os bydd gwybodaeth **isafswm** yn cael ei chuddio neu ddileu, dim ond os mai'r wybodaeth hon yw'r unig sail dros ddosbarthu'r ddogfen. Yn yr achosion penodol hyn, gellir dileu'r testun perthnasol, a dileu dosbarthiad y ddogfen, **dim ond** os:

    (1) Nad yw'r testun sy'n weddill yn cynorthwyo adnabod yr wybodaeth a gelwyd neu a ddilëwyd mewn unrhyw fodd

    ac

    (2) Celu/dileu gwybodaeth nad yw'n amharu ar, na'n effeithio fel arall, synnwyr neu ystyr y ddogfen

  Ym mhob achos o'r fath, rhaid i'r ddogfen sydd wedi colli ei dosbarthiad ddangos yn glir bod gwybodaeth wedi ei dileu.

- Ble'r ystyrir bod nad yw dogfen yn debygol o golli ei dosbarthiad ar unrhyw adeg, gellir ei nodi 'Dim Cyfeirnod Pellach', ac ni fydd yn cael ei gynnwys yn rhan o'r adolygiad blynyddol.

- Rhaid cynnwys unrhyw gynnig i ryddhau dogfen sydd wedi ei dosbarthu'n flaenorol, i olygu dogfen i alluogi ei rhyddhau neu i ddileu dogfen o'r cylch adolygiad blynyddol mewn adroddiad manwl priodol, i'w gymeradwyo gan y Gorfforaeth neu Bwyllgor perthnasol.

- Bydd gwybodaeth sydd wedi colli ei dosbarthiad dan y Polisi hwn ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag sy'n ymarferol, yn dilyn y penderfyniad i ryddhau.